



**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau**  
**Cyfarfod Pwyllgor Sesiwn Gyhoeddus Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**  
**10 Medi 2024 am 10:00, yn 3.2 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

**Rhan A**

<b>Yn bresennol</b>		
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Cadeirydd
Clare Jenkins	(CJ)	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd y Bwrdd
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol
<b>Yn Bresennol:</b>		
Henry Bales	(GL)	Arbenigwr Atal Twyll
Anne Beegan	(AB)	Archwilio Cymru
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Andrea Calise	(AC)	Rheolwr Contractau, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (10:00 i 10:35)
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Danielle Gething	(DG)	Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 5)
Ian Kent	(IK)	Rheolwr Cyllid (Arsylwr)
Alun Lloyd	(AL)	Cynghorydd Annibynnol
Jane Matthews	(JM)	Pennaeth Adrodd Ariannol a Rheolaeth
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
<b>Ymddiheuriadau</b>		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Nick Elliott	(NE)	Cadeirydd Dros Dro
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Dechreuodd y cyfarfod am 10:00		
<b>ACGC 1/2024.09.10 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb</b>		
Agorodd MM y cyfarfod a chroesawodd pawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.		
<b>Nododd</b> y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Ionawr 2025.		
Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd.		



<b>ACGC 2/2024.09.10</b>	<b>Datganiadau o Fuddiant</b>
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.	
<b>ACGC 3/2024.09.10</b>	<b>Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol</b>
<b>ACGC 3.1/2024.09.10</b>	<b>Traciwr Argymhellion Archwilio</b>
<p>Bu'r Pwyllgor <b>yn ystyried</b> y traciwr argymhellion Archwilio a'r adroddiad Nododd y Pwyllgor fod camau a oedd yn ymwneud â gwybodaeth fusnes sensitif wedi cael eu hystyried yng Nghyfarfod Preifat y Pwyllgor.</p> <p>Dywedodd LB wrth y Pwyllgor am y sefyllfa bresennol o ran cynnydd a gweithrediad y camau rheoli sy'n codi o argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol. Adolygwyd y Gofrestr Tracio Archwilio bob chwarter gan y Tîm Arwain a oedd yn gyfrifol am gau camau gweithredu, cymeradwyo estyniadau a sicrhau cynnydd o ran gweithredu. Mae'r Traciwr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn bob chwarter ar gyfer Sigrwydd.</p> <p>Roedd LB wedi derbyn ceisiadau am wybodaeth fanylach mewn perthynas â'r estyniadau i rai o'r terfynau amser a ganiatawyd gan y Tîm Arwain. Roedd y ceisiadau'n disgyn yn fras i ddau grŵp; lle nad oedd y broses ymgynghori wedi'i hystyried yn gywir pan gytunwyd ar y cynllun gweithredu a lle nad oedd y rhan ymgysylltu o'r broses wedi'i hystyried wrth gytuno ar y cynllun gweithredu.</p> <p><b>Cam Gweithredu: LB</b></p> <p>Dywedodd LB wrth y Pwyllgor y byddai'r Tîm Arwain yn ystyried y Traciwr Gweithredu Archwilio nesaf yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr. Cytunwyd y byddai Archwiliad Dwfn arall i'r Traciwr Gweithredu yn cael ei ystyried yn y cyfarfod a fyddai'n edrych ar bob Cam Gweithredu i sicrhau bod yr amserlen'n realistig ac yn gyraeddadwy. Byddai'r Archwiliad Dwfn yn cael ei adrodd yng nghyfarfod mis Ionawr o'r Pwyllgor hwn.</p> <p>Gofynnodd y Pwyllgor am yr oedi parhaus i'r argymhelliad Ymgysylltu, a dywedodd SS nad oedd y dyddiad gweithredu gwreiddiol ystyried am y gwaith ehangach angenrheidiol o fewn y Sefydliad. Cytunwyd ar ddull ymgysylltu yng nghyfarfod y Tîm Gweithredol Busnes ar 4 Medi a byddai'n sicrhau bod dyddiad cau diwygiedig yn bosibl i'r Cam Gweithredu hwn.</p> <p>Dywedodd SS wrth y Pwyllgor fod y Tîm Arwain wedi gwella cyfradd cwblhau argymhellion o fewn terfynau amser ar draws y Sefydliad. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Tîm Arwain wedi gofyn am gael gweithio gyda chydweithwyr wrth gytuno ar argymhellion yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod yr holl waith angenrheidiol yn cael ei gynllunio cyn cytuno ar ddyddiad cwblhau. Byddai'r dull hwn yn lleihau nifer y ceisiadau am estyniad wrth symud ymlaen.</p> <p>Gan gyfeirio at y gwaith ymgysylltu sydd ar y gweill ar draws y Sefydliad, dywedodd HG wrth y Pwyllgor y byddai'r gwaith hwn yn sicrhau dull cydlynol a chyson o ymgysylltu ar draws y Sefydliad a byddai hefyd yn sicrhau arferion da.</p> <p>Mewn cyfarfod gyda chydweithwyr Archwilio Mewnol, roedd LB a PV wedi awgrymu bod Uned Fusnes y Bwrdd yn craffu ar ymatebion rheolwyr cyn cytuno. Byddai hyn yn sicrhau</p>	



bod amserlen realistig yn cael ei phennu ac yn lleihau nifer y ceisiadau am estyniad a dderbynnir gan y Tîm Arwain.

Cydnabu'r Pwyllgor fod y Traciwr wedi dangos llywodraethu da ledled y Sefydliad a **bu'n ystyried** y diwygiadau i'r Traciwr Archwilio fel y'u cymeradwywyd gan y Tîm Arwain ar 27 Awst 2024 a chymerodd **sicrwydd** ynghylch y cynnydd o ran rhoi'r camau gweithredu sy'n deillio o Archwilio o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar waith.

#### ACGC 3.2/2024.09.10 | Archwilio Mewnol

**Ystyriodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.

#### Adroddiad Cynnydd yr Archwiliad Mewnol

Dywedodd PD wrth y Pwyllgor fod gwaith wedi mynd rhagddo'n dda ers y cyfarfod diwethaf, cyflwynwyd un adroddiad Archwilio Mewnol terfynol i'r Pwyllgor ac ar yr agenda heddiw (Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (Risgiau Strategaeth). Mae tri Adroddiad arall ar y cam drafft terfynol. Dywedodd y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Ionawr.

Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r tri phapur sy'n symud i fis Ionawr yn ogystal â'r tri phapur a ddisgwyliwyd eisoes yn y cyfarfod efallai ddim yn caniatáu digon o amser ar gyfer trafodaethau. Awgrymodd PD y byddai lefel y craffu sydd ei angen yn dibynnu ar lefel sicrwydd pob adroddiad, ac awgrymodd flaenoriaethu'r adroddiadau hynny gyda rhagor o argymhellion sydd angen eu blaenoriaethu. Sicrhaodd LB y Pwyllgor y byddai'r sefyllfa'n cael ei monitro a bod digon o amser yn cael ei neilltuo i'r adroddiadau yn y cyfarfod.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y Cynllun Gwaith Blynyddol ar y trywydd iawn i gael ei gyflawni. Dywedodd PD wrth y Pwyllgor ei fod wedi'i gynllunio o amgylch amseriadau cyfarfodydd y Pwyllgor, a bod yr holl waith maes a gynlluniwyd wedi'i gwblhau hyd yn hyn a bod y Cynllun Gwaith ar y trywydd iawn i'w gwblhau.

Cafodd y Pwyllgor sicrwydd o Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.

#### Adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol

Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (Risgiau Strategol):

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (Risgiau Strategol) (sicrwydd sylweddol).

Rhoddodd AC wybod i'r Pwyllgor fod yr adroddiad hwn wedi'i roi'n sylweddol a thynnodd sylw'r Pwyllgor at un flaenoriaeth strategol ar gyfer Newid Hinsawdd nad oedd mor amlwg yn y Gofrestr Risg Strategol â'r disgwyl.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod datblygiad y cynllun tymor canolig integredig (CTCI) wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â'r gofrestr risg strategol. Daeth y rheolwyr i'r casgliad y dylai Newid Hinsawdd gael blaenoriaeth ar wahân yn yr CTCI ac na ddylid ei gynnwys yn y Gofrestr Risg Strategol.



Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** gan Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (Risgiau Strategol).

Diolchodd MM i PD ac AC am y Diweddariad a'r Adroddiad Archwilio Terfynol.

### ACGC 3.3/2024.09.10 | Archwilio Allanol

**Ystyriodd** y Pwyllgor Gynllun Archwilio Cymru.

Tynnodd AB sylw'r Pwyllgor at y cynllun gwaith presennol:

- Roedd gwaith ar y gweill ar adolygiad o ddull y Sefydliad o osod ei amcanion llesiant
- Bu oedi gyda'r gwaith effeithlonrwydd ariannol
- Mae'r Asesiad strwythuredig craidd yn y cyfnod cynllunio

Dywedodd AB wrth y Pwyllgor fod bwriad i ddod â'r tri adroddiad a restrwyd i Bwyllgor mis Ionawr a'i bod yn bwriadu trafod yr amserlen gyda PD ac LB.

Dywedodd AB fod Pwyllgor Archwilio Cymru wedi cysylltu â chydweithwyr Archwilio Mewnol i alinio gwaith ar drawsnewid digidol.

Ym mis Mai, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Swyddogion Gweithredol a oedd wedi nodi adolygiad dilynol ar Lywodraethu Ansawdd gan gynnwys y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

**Nododd** y Pwyllgor y Diweddariad gan Archwilio Cymru.

Diolchodd MM i AB am Ddiweddariad Archwilio Cymru.

### ACGC 3.4/2024.09.10 | Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol 2023/24

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i'r Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol 2023/24.

Rhoddodd SS wybod i'r Pwyllgor am y craffu yr oedd y papur hwn wedi'i dderbyn. Fe'i cyflwynwyd i'r Tîm Arwain, ac yna'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i gael sicrwydd manwl pellach. Cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn i gael sicrwydd bod system gyffredinol ar waith i sicrhau bod swyddogaeth archwilio glinigol effeithiol ar waith. Gofynnodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella am fwy o fanylion am y canlyniadau a'r gwelliannau y gellid eu gwneud o'r archwiliadau. Cafodd ei adolygu yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf a byddai'n cael ei adolygu eto ymhen chwe mis.

Parhaodd y Tîm Archwilio Ansawdd a Chlinigol i weithio gyda phob Cyfarwyddiaeth i nodi meysydd o weithgarwch archwilio. Byddai'r system archwilio digidol newydd yn caniatáu i'r holl waith archwilio gael ei goladu'n fwy effeithlon ac effeithiol. Byddai'r Ddyletswydd Ansawdd yn sicrhau mwy o archwiliadau yn deillio o ddysgu, newid neu arloesi.

Holodd y Pwyllgor ynghylch materion yn ymwneud â chyfyngiadau staff ac a oedd hwn yn fater tymor byr. Sicrhaodd SS y Pwyllgor mai mater tymor byr ydoedd ac y byddai adroddiad ar gwblhau'r gwaith yn cael ei adrodd yn y Pwyllgor nesaf.



Holodd y Pwyllgor a oedd yr archwiliadau clinigol a adroddwyd yn fewnol neu'n allanol gan nad oeddent yn perthyn i'r dosbarthiadau a ddefnyddiwyd yn gynharach yn y cyfarfod. Hysbysodd SS y Pwyllgor ei bod yn ofynnol i'r Sefydliad gynnal yr Archwiliadau Ansawdd a Chlinigol ar lefel genedlaethol ac nad oeddent yn Archwiliadau Mewnol nac Allanol gan ddefnyddio'r diffiniadau blaenorol gan fod angen gwybodaeth glinigol arnynt. Roeddent yn Archwiliadau a gynhaliwyd yn fewnol.

Trafododd y Pwyllgor a oedd gan yr Archwiliadau Mewnol Clinigol fframweithiau llywodraethu a chraffu priodol i'w cefnogi. Dywedodd SS wrth y Pwyllgor y byddai defnyddio'r Ddyletswydd Ansawdd yn sicrhau darlun cyffredinol o'r holl archwiliadau o fewn y Sefydliad a byddai'n rhoi sicrwydd o weithgarwch clinigol ac archwiliadau clinigol y Sefydliad.

Cadarnhaodd AB fod y rhan fwyaf o sefydliadau'r GIG yn adrodd ar eu Cynlluniau Archwilio Clinigol i'w Pwyllgorau Archwilio, ac y byddai canlyniadau'r archwiliadau'n cael eu hadrodd i'n Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella cyfatebol. Nododd fod archwiliad clinigol yn ofyniad parhaus gan weithwyr iechyd proffesiynol.

Awgrymodd y Pwyllgor fod angen dull gweithredu ar draws y Sefydliad i ddogfennu pob archwiliad clinigol. Dywedodd LB ei bod ar weithgor i ddod o hyd i feddalwedd a fyddai'n casglu'r holl archwiliadau mewn un lleoliad. Byddai'n cynnwys achredu archwiliadau clinigol ac iechyd a diogelwch. Byddai hyn wedyn yn caniatáu golwg thematig o'r holl archwiliadau a dolen i ddangos y darlun ehangach.

Derbyniodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y cynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol ar gyfer 2023-24. Cafodd sicrwydd bod cynllun priodol ar waith ar gyfer yr Archwiliad Ansawdd a Chlinigol ar gyfer 2024-25, a chafodd **sicrwydd** bod y cynllun ar gyfer 2024-25 yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

<b>ACGC 4/2024.09.10</b>	<b>Llywodraethu ac Atebolrwydd</b>
<b>ACGC 4.1/2024.09.10</b>	<b>Cofnodion 9 Mai 2024, Cofnodion 10 Gorffennaf 2024 a'r Cofnod Gweithredu</b>

Bu'r Pwyllgor yn **ystyried** Cofnodion a Chofnod Gweithredu'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Mai a 10 Gorffennaf 2024.

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Cymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mai 2024 a 10 Gorffennaf 2024 fel cofnodion cywir o'r cyfarfodydd.
- **Cymeradwyo** cau'r 11 cam gweithredu a gwblhawyd ar y Log Gweithredu.

<b>ACGC 4.2/2024.09.10</b>	<b>Diweddariad ar Sicrwydd Llywodraethu Integredig</b>
----------------------------	--

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i'r diweddariadar Sicrwydd Llywodraethu Integredig.

Dywedodd SS wrth y Pwyllgor bod cyfarfodydd llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch bellach yn cael eu cynnal yn wythnosol gyda SS, Iain Bell a John Lawson (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ac Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth GIG Cymru, Pennaeth Gwybodeg a chydweithwyr Seiberddiogelwch. Roedd Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth newydd wrthi'n cael ei chynllunio a byddai'n cael ei chynnwys yn adroddiad Chwarter 2.



Mewn perthynas â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a Cheisiadau Gwrthrych am Wybodaeth, roedd y tîm wedi cysylltu â phob Cyfarwyddiaeth i bwysleisio pwysigrwydd blaenoriaethu'r ceisiadau hyn.

Adroddwyd am 11 o achosion o dorri rheolau data. Roedd 3 yn adroddadwy i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi'u hadrodd i Sesiwn Breifat y Pwyllgor hwn.

Mae hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth wedi gwella i 89%.

Trafododd y Pwyllgor gynnydd cynllun gweithredu SharePoint. Roedd y cynllun ar y trywydd iawn a chyhoeddwyd adroddiad sicrwydd yn cadarnhau cynnydd y cyfnod pontio. Roedd sesiwn archwilio dwfn wedi'i chynllunio ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai hyn yn cynnwys adborth gan ddefnyddwyr terfynol a gasglwyd yn ystod sesiynau ôl-bontio'r Gyfarwyddiaeth. Cadarnhaodd SS y byddai.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth a bod Rhaglen Weithredu SharePoint ar gyfer Rheoli Cofnodion ar y trywydd iawn gyda'r cynllun gweithredu.

#### **ACGC 4.3/2024.09.10 | Diweddariadau Llywodraethu Dwywaith y Flwyddyn**

**Derbyniodd** y Pwyllgor y Diweddariadau Sicrwydd Llywodraethu Dwywaith y Flwyddyn:

- Datganiadau o Fuddiant
- Cylchlythyrau Iechyd Cymru
- Diweddariad Polisi

Tynnodd LB sylw'r Pwyllgor at yr Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu chwe-misol. Nododd nad oedd dim byd anarferol i'w amlygu. Roedd Cylchlythron Iechyd Cymru bellach yn cael eu hadrodd yn fisol drwy'r Adroddiad Perfformiad Integredig i'r Bwrdd, ac roedd gwybodaeth fanylach wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad i'r Pwyllgor. Nid oedd unrhyw bryderon i'w codi gyda pholisïau na'r Datganiad o Fuddiannau.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch:

- gweithredu'r Polisi Safonau Ymddygiad a **nodwyd** y byddai'r **Gofrestr Datganiadau o Ddiddordeb** wedi'i diweddarau yn cael ei chyhoeddi ar ôl y cyfarfod.
- rheoli'r broses o sicrhau bod y Sefydliad yn cydymffurfio â **Chylchlythyrau Iechyd Cymru**.
- y blaenoriaethu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i adolygu **polisiau Corfforaethol, gweithdrefnau** a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

#### **ACGC 4.4/2024.09.10 | Polisi i'w Gymeradwyo**

**Derbyniodd** y Pwyllgor y Polisi Dim Archeb Brynu Dim Tâl.

Eglurodd JM gefndir y Polisi hwn a gyflwynwyd gyntaf fel Polisi Cymru Gyfan yn 2018. Dychwelwyd unrhyw anfonebau cyflenwyr a dderbyniwyd heb rif archeb brynu i'w diwygio, roedd rhai eithriadau a nodwyd yn y Polisi. Roedd nifer yr anfonebau oedd yn



cael eu dychwelyd wedi cynyddu a phenderfynwyd ail-lansio'r Polisi a gofyn i'r tîm Cyfathrebu ddefnyddio'r ail-lansiad fel cyfle i hyrwyddo'r Polisi.

Roedd rhai mân newidiadau i'r Polisi. Gofynnodd y Pwyllgor am naratif ynghylch pam y caniateir eithriadau yn y Polisi. Eglurodd JM nad yw Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynnu bod rhifau archeb brynu yn cael eu cynnwys ar anfonebau gan sefydliadau eraill GIG Cymru, oherwydd bod cytundebau lefel gwasanaeth ar waith gyda'r Sefydliadau dan sylw. **Cytunodd** JM i gylchredeg rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor.

**Cam Gweithredu: JM**

**Cymeradwydd** y Pwyllgor y polisi Dim Archeb Brynu Dim Tâl

**ACGC 5/2024.09.10 | Risg**

Rhoddodd SS amserlen i'r Pwyllgor ar gyfer y Cynllun Datblygu Rheoli Risg a ddatblygwyd ar y cyd â Grant Thornton. Byddai'n cael ei ddsbarthu'n fuan.

Byddai fersiwn diweddaraf y Gofrestr Risg Strategol yn mynd i'r Tîm Gweithredol Busnes ar 18 Medi ac i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd ochr yn ochr â'r Fframwaith Archwaeth Risg.

Roedd yr holl Gyfarwyddwyr wedi adolygu eu Risgiau Corfforaethol priodol, ac adolygodd y Tîm Arwain y Gofrestr Risg Gorfforaethol gyfan bob deufis ac ystyried uwchgyfeirio neu ddad-ddwysáu Risgiau Corfforaethol yn ôl yr angen. Awgrymodd SS y dylid adlinio dyddiadau bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei chyflwyno i'r Tîm Arwain gan nad oedd dyddiadau ar hyn o bryd yn cyd-fynd â dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor hwn.

Roedd y Tîm Risg yn awyddus i wella synergeddau rhwng y Gofrestr Risg Strategol a'r Cofrestrau Risg Corfforaethol a chydabuwyd fel y ffordd i weld gwelliant.

**ACGC 5.1/2024.09.10 | Cofrestr Risgiau Strategol**

**Derbyniodd** y Pwyllgor y Gofrestr Risg Strategol.

Cyflwynodd SS yr eitem risg a chadarnhaodd fod yr SSR i'w gymeradwyo gan BET cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd.

Cyflwynodd DG y Gofrestr Risg Strategol ac eglurodd y byddai'r Gofrestr ar ei ffurf newydd yn cael ei chyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes yn ei gyfarfod nesaf. O'r cyfarfod nesaf, byddai'n ymddangos mewn fformat cryno newydd yn y Pwyllgor hwn.

Roedd yna bum risg strategol. Arhosodd y sgorau'r un fath â'r tro diwethaf i'r Gofrestr gael ei derbyn yn y Pwyllgor hwn.

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i'r Gofrestr Risgiau Strategol a chymerodd **sicrwydd** arni.

**ACGC 5.2/2024.09.10 | Y Gofrestr Risg Gorfforaethol**

**Derbyniodd** y Pwyllgor y Gofrestr Risg Gorfforaethol.



Rhoddodd DG grynodedb o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol gyfredol a gymeradwywyd gan y Tîm Arwain yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. Rhestrwyd naw risg a rhoddodd ddiweddariad byr i'r Pwyllgor ar y risgiau a ganlyn:

- Risg 1531. Mae perygl y byddwn yn methu â manteisio ar ddata i lywio a chyfarwyddo camau gweithredu ac ymyriadau ym maes iechyd y cyhoedd. Roedd y risg yn cael ei rheoli'n weithredol dan arweiniad y Pennaeth Data. Cyflawnwyd camau lliniaru sylweddol ym mis Awst gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) a oedd yn asesu 3 opsiwn amnewid posibl. Roedd cyfarfod briffio pellach gan IGDC ar 16 Medi 2024 ynghylch yr un newydd. Adolygwyd y risg ar 2 Medi 2024 gan yr Awdurdod Dylunio Data Digidol er mwyn i bob aelod allu rhoadru a diweddarau Cyfarwyddiaethau ar y cynnydd.
- Risg 1533. Mae risg o niwed i enw da a methiant i weithredu'r rheoliadau statudol HIA sy'n rhan o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus Cymru yn effeithiol. Mae'r risg yn parhau i gael ei reoli'n dda ac mae mesurau lliniaru yn parhau yn erbyn y cynllun.
- Risg 1593. Y risg na allwn ddangos bod y safonau ansawdd a'r Ddyletswydd Ansawdd wedi'u gwreiddio yn ein systemau. Roedd Grŵp Goruchwylio Ansawdd (QuOAG) newydd wedi'i sefydlu i reoli'r camau gweithredu a mynd i'r afael â'r risg. Nid oedd nifer o reolaethau bellach ar waith ac roeddent wedi'u dileu ond nid oedd hyn wedi effeithio ar y sgôr risg gweddilliol.
- Risg 1614. Y risg na all Bwrdd a Phwyllgorau Iechyd Cyhoeddus Cymru gymryd digon o sicrwydd bod Gweithrediaeth GIG Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau. Byddai map Sicrwydd yn cael ei gytuno'n ffurfiol. Fodd bynnag roedd y broses o adrodd i'r Pwyllgorau a'r Tram Gweithredol Busnes wedi dechrau yn unol â'r amserlen (yn amodol ar ei gwblhau). Cyftwynwyd adroddiadau i ACGC ym mis Mai, a QSIC ym mis Gorffennaf a pharhaodd cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr a GIGE.
- Risg 1648. Y risg y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn colli mynediad at ddata Gofal Sylfaenol. Roedd y sgôr targed wedi'i ostwng i 4. Roedd asesiad effaith wedi'i ddiweddarau gyda'r Tîm Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a'i "gyflwyno". Roedd IGDC o'r farn bod defnydd Iechyd Cyhoeddus Cymru o Audit+ yn sgil-gynnyrch i'r contract gwreiddiol. Roeddent wedi cynnig ateb tair rhan: y cyntaf i ddisodli swyddogaethau meddygon teulu; yr ail i ddisodli'r defnydd eilaidd o ddata personol; a'r trydydd i ddisodli'r data gweithredol. Roedd gwaith yn parhau i ddod o hyd i ateb defnyddiol gan ystyried costau uniongyrchol a fforddiadwyedd yn y dyfodol.
- Risg 1654. Y risg o archwiliadau DBS dilynol annigonol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafodd y risg hon ei huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mis Gorffennaf 2024. Dechreuodd Swyddog Cydymffurfiaeth y DBS yn ei swydd ar 2 Medi 2024 a byddai archwiliad wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2025 a'r canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Grŵp Diogelu.
- Risg 1655. Y risg o niwed i'r boblogaeth, mewn perthynas â grwpiau agored i niwed oherwydd penodiadau amhriodol i swyddi o ymddiriedaeth. Cafodd y risg hon ei huwchgyfeirio ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mis Gorffennaf 2024. Ers hynny mae sgôr gweddilliol o 9 a sgôr targed o 6 wedi'u nodi.
- Risg 1656. Y risg o niwed sylweddol i enw da'r Sefydliad pe bai aelod o staff yn cael ei benodi'n amhriodol i swydd o ymddiriedaeth a bod digwyddiad yn digwydd. Cafodd y risg hon ei huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mis Gorffennaf 2024. Ers hynny mae sgôr gweddilliol o 9 a sgôr targed o 6 wedi'u nodi.





Atgoffodd MM y Pwyllgor fod y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn derbyn y Gofrestr Risg Strategol a bod y cyflwyniad hwn wedi ei atgoffa o bwysigrwydd i'r Pwyllgor hefyd adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol o ystyried sut y gallai'r risgiau effeithio ar y Sefydliad.

Gofynnodd y Pwyllgor am esboniad manylach ynghylch risg y DBS (1654). Eglurodd DG y risg yn ymwneud â gwiriadau cychwynnol pan oedd cyflogaeth yn dechrau ac ni chynhaliwyd gwiriadau pellach. Roedd y risg wedi'i ddadgyfuno i feysydd risg gwahanol, y risg o niwed i'r cyhoedd a risg i enw da'r Sefydliad. Byddai Archwiliad pellach yn cael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2025.

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a chymerodd sicrwydd arni.

<b>ACGC 6/2024.09.10</b>	<b>Er Gwybodaeth</b>
--------------------------	----------------------

<b>ACGC 6.1/2024.09.10</b>	<b>Cyllid, Caffael ac Atal Twyll</b>
----------------------------	--------------------------------------

Dim.

<b>ACGC 6.2/2024.09.10</b>	<b>Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol</b>
----------------------------	--

Dim.

<b>ACGC 6.3/2024.09.10</b>	<b>Rheoli Risg</b>
----------------------------	--------------------

**Derbyniodd** y Pwyllgor y Gofrestr Risgiau Strategol.

<b>ACGC 6.4/2024.09.10</b>	<b>Llywodraethu ac Atebolrwydd</b>
----------------------------	------------------------------------

Dim.

<b>ACGC 6.5/2024.09.10</b>	<b>Cynllun Gwaith y Pwyllgor</b>
----------------------------	----------------------------------

**Derbyniodd** y Pwyllgor y Cynllun Gwaith.

Gofynnodd y Pwyllgor pryd y cynhaliwyd y cyfarfod Preifat gyda'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol a Gwrth Dwyll. Dywedodd LB wrth y Pwyllgor fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng y Cadeirydd a'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol ac Atal Twyll cyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor a chynhelir y cyfarfodydd Preifat ym mis Mawrth.

<b>ACGC 7/2024.09.10</b>	<b>Gweinyddiaeth i Gloi</b>
--------------------------	-----------------------------

**Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor:**

14 Ionawr 2025

Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth am y cyfarfod at LB.

**Unrhyw Fater Arall**

Dim.

Diolchodd MM i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:35

**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau**  
**Cyfarfod Pwyllgor Sesiwn Gyhoeddus Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**  
**10 Medi 2024 am 10:00, yn 3.2 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

**Rhan B**

<b>Yn bresennol</b>		
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Cadeirydd
Clare Jenkins	(CJ)	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd y Bwrdd
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol
<b>Yn Bresennol:</b>		
Henry Bales	(GL)	Arbenigwr Atal Twyll
Anne Beegan	(AB)	Archwilio Cymru
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Claire Green	(CG)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cynllunio a Darparu Ariannol a Swyddog Cyfrifol, Gweithrediaeth y GIG
Ian Kent	(IK)	Rheolwr Cyllid (Arsylwr)
Alun Lloyd	(AL)	Cynghorydd Annibynnol
Jane Matthews	(JM)	Pennaeth Adrodd Ariannol a Rheolaeth
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
<b>Ymddiheuriadau</b>		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Nick Elliott	(NE)	Cadeirydd Dros Dro
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Dechreuodd y cyfarfod am 11:35		
<b>ACGC 8/2024.09.10 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb</b>		
Agorodd MM y cyfarfod a chroesawodd pawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.		
<b>Nododd</b> y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Ionawr 2025.		
Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd.		

<b>ACGC 9/2024.09.10</b>	<b>Datganiadau o Fuddiant</b>
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.	
<b>ACGC 10/2024.09.10</b>	<b>Busnes Gweithrediaeth y GIG</b>
<p>Bu'r Pwyllgor yn <b>ystyried</b> Adroddiad Sicrwydd Chwarterol Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Gweithredol y GIG (ACGC).</p> <p>Wrth gyflwyno'r Adroddiad, dywedodd CG wrth y Pwyllgor fod camau wedi'u cymryd i gychwyn cynllunio Archwilio Mewnol yn unol â'r Cytundeb Lletya, ac y byddai'r cynllun yn cael ei rannu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru cyn gynted ag y byddai wedi'i gytuno.</p> <p><b>Cam Gweithredu: GC</b></p> <p>Roedd y system DATIX i reoli ac adrodd ar risg ar draws Gweithrediaeth y GIG ar waith.</p> <p>Adroddwyd am ddau doriad archwilio a byddent yn cael eu dilyn i fyny ac yn cael eu hadrodd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol. Adroddwyd am un achos o dorri rheolau data a ymchwiliwyd iddo gan dîm Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hyfforddiant wedi'i roi ar waith yn dilyn y toriadau ac nid oedd angen unrhyw gamau pellach.</p> <p>Roedd y gwaith o sefydlu Cofrestr Cytundebau ar y gweill ac roedd Tîm Caffael Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu proses fonitro weithredol i Weithrediaeth y GIG fonitro tueddiadau yn y broses gaffael.</p> <p>Gofynnodd y Pwyllgor a oedd cynlluniau i Archwilio perthynas waith Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gweithrediaeth y GIG. Dywedodd PD wrth y Pwyllgor fod dalfan wedi'i sefydlu yng nghynllun gwaith 2024/25 a oedd wedi'i awgrymu fel archwiliad posibl o'r berthynas lywodraethu rhwng y ddau Sefydliad.</p> <p>Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r ddau Sefydliad yn rhannu cyfleusterau SharePoint a TG. Dywedodd CG wrth y Pwyllgor y gofynnwyd i Weithrediaeth y GIG fod yn flaengar yn y broses drawsnewid wrth symud storio data i'r cwmwl.</p> <p>Gofynnodd y Pwyllgor a oedd Gweithrediaeth y GIG yn rheoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth mewn modd amserol. Dywedodd CG wrth y Pwyllgor fod ffurfio Gweithrediaeth y GIG wedi cynhyrchu nifer fwy na'r disgwyl o geisiadau a bod y rhain yn cael eu rheoli gan ddefnyddio siart llif a ddyluniwyd mewn cydweithrediad â chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <p><b>Rheoli Risg (Chwarterol)</b></p> <p>Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cymryd <b>sicrwydd</b> bod yna broses rheoli risg effeithiol o fewn Gweithrediaeth y GIG.</li> <li>Cymryd <b>sicrwydd</b> bod unrhyw risg a nodwyd gan Weithrediaeth y GIG yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i fod wedi'i uwchgyfeirio'n briodol.</li> </ul> <p><b>Gweithgarwch Archwilio (Chwarterol)</b></p> <p>Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:</p>	



- **Nodwyd** bod camau wedi'u cymryd i egluro cynlluniau archwilio ar gyfer 2024/25 ar gyfer Gweithrediaeth y GIG.
- Cymryd **sicrwydd** bod ymateb y rheolwyr ar gyfer yr Adolygiad Cyngorol Archwilio Mewnol ar 'reoli a llywodraethu trefniadau gwasanaeth o fewn y swyddogaeth Rhwydweithiau a Chynllunio' wedi'i adrodd i Lywodraeth Cymru ar gyfer atebolrwydd, a bod Gweithrediaeth y GIG yn gweithredu'n briodol ar y materion a godwyd yn yr Archwiliad trwy weithredu ymateb y rheolwyr.
- **Nodwyd** bod dau achos o dorri amodau archwilio yn cael eu hadrodd i ACGC ym mis Medi. Mae un wedi'i ddatrys a bod Gweithrediaeth y GIG wedi gofyn am fanylion ar yr ail..
- **Nodwyd** nad oes unrhyw weithgaredd archwilio newydd wedi ei gychwyn yn ystod y cyfnod adrodd

Cydymffurfiaeth Atal Twyll (Chwarterol)

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodwyd** na adroddwyd am unrhyw weithgarwch Atal Twyll i Weithrediaeth y GIG.

Cydymffurfiaeth Llywodraethu Gwybodaeth (Chwarterol)

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** bod Gweithrediaeth y GIG wedi cydymffurfio â Pholisi a phrosesau Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- **Nodwyd** un eithriad fel toriad data a chymerodd **sicrwydd** bod y diffyg cydymffurfio wedi'i adolygu a'i drafod ag arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, a bod camau priodol wedi'u cymryd.
- Cymryd **sicrwydd** bod unrhyw ddiffyg cydymffurfio sy'n cynrychioli risg reoleiddiol i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei reoli'n briodol.

Cofrestr Cytundebau Gweithredol y GIG (Chwe-misol)

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** bod Gweithrediaeth y GIG yn cymryd camau i goladu cofrestr o gytundebau cydweithio, ac y byddai'n cael ei chynnal, yn unol â gofynion y Fframwaith Cydweithio.

Datganiadau o Fuddiant (Chwe-misol)

- Cymryd **sicrwydd** bod Gweithrediaeth y GIG yn cynnal cofrestr o ddatganiadau o fuddiant ar gyfer rolau uwch perthnasol yn unol â Pholisi Safonau Ymddygiad Iechyd y Cyhoedd.

**ACGC 7/2024.09.10 | Gweinyddiaeth i Gloi**

**Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor:**

14 Ionawr 2025

Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth am y cyfarfod at LB.

**Unrhyw Fater Arall**



Diolchodd HG i MM am ei waith caled yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Anweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd MM i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:00

Heb eu Cadarnhau